**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22 Ionawr 2013 i'w hateb ar 5 Chwefror 2013**

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

**Gofyn i Brif Weinidog Cymru**

**1. Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau seilwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gogledd Cymru dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0887(FM)

**2. Antoinette Sandbach** (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi cymunedau yng nghefn gwlad Cymru. OAQ(4)0897(FM) **TYNNWYD YN ÔL**

**3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau economaidd dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0885(FM)

**4. Russell George (Sir Drefaldwyn):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella atebolrwydd lleol drwy system gynllunio Cymru. OAQ(4)0893(FM)

**5. Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r camau a gymerir gan awdurdodau lleol yng Nghymru i liniaru ar effaith toriadau mewn budd-daliadau tai hanfodol. OAQ(4)0890(FM)

**6.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ofal i'r newydd-anedig yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0888(FM) **TYNNWYD YN ÔL**

**7. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa gynnydd a wneir gan Lywodraeth Cymru i gynyddu gweithgarwch undebau credyd yng Nghymru wrth ddarparu benthyciadau llog isel i bobl y byddent, fel arall, yn ddibynnol ar fenthyciadau diwrnodau cyflog. OAQ(4)0889(FM)

**8. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i atal plant rhag cael gafael ar ddeunydd sy'n amhriodol i'w hoedran ar-lein. OAQ(4)0892(FM)

**9. Dafydd Elis-Thomas** (Dwyfor Meirionnydd): A wnaiff y Prif Weinidog nodi sawl gwaith y mae'n bwriadu cwrdd â Gweinidogion Llywodraeth Iwerddon yn ystod cyfnod Llywyddiaeth Iwerddon yn yr Undeb Ewropeaidd. OAQ(4)0895(FM) W **TYNNWYD YN ÔL**

**10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hybu twf busnesau bach a chanolig. OAQ(4)0886(FM)

**11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllun gwella iechyd Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwên. OAQ(4)0884(FM)

**12. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd atebolrwydd a thryloywder yn Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0894(FM)

**13. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth unedau mân anafiadau yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0896(FM)

**14. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyhoeddiad bod gogledd Cymru yn un o safleoedd posibl Llywodraeth y DU ar gyfer carchar mawr. OAQ(4)0891(FM)